



CARCHAR EI MAWRHYDI
ABERTAWE

ADRODDIAD BLYNYDDOL
diwedd Mai 2014 - diwedd Mai 2015

Adran 1

RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gofyn i bob carchar ac IRC gael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu ganolfan ynddi.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yn benodol yw:

- (1) bodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a chyfiawn y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pa mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith a gafodd y rhain ar y rhai yn ei ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd i gofnodion y carchar.

ADRAN 2

CYNNWYS

- ADRAN 1 - Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol**
- ADRAN 2 - Cynnwys**
- ADRAN 3 - Disgrifiad o'r Carchar**
- ADRAN 4 - Crynodeb Gweithredol**
- ADRAN 5 - Yr Adroddiad**
Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Addysg, Dysgu a Sgiliau
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Gweithgarwch pwrpasol
Adsefydlu
Dalfa Mwy Diogel
Gwahanu a Gofal
Gwasanaethau Preswyl
- ADRAN 6 - Ardaloedd Eraill y Carchar**
Derbyn a Sefydlu
Caplaniaeth
- ADRAN 7 - Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol**
Y Bwrdd Monitro Annibynnol (BMA) yn Abertawe
Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol
Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Bwrdd
Ystadegau'r Bwrdd

ADRAN 3 Disgrifiad o'r Carchar

3.1 Mae Carchar Ei Mawrhydi Abertawe yn Garchar lleol Categori B, sy'n dal oedolion ac oedolion ifanc gwrywaidd. Mae'n garchar Fictoraidd traddodiadol mewn lleoliad yn ardal ganolog y ddinas. Mae carcharorion sy'n oedolion naill ai wedi cael eu remandio i'r ddalfa o'r llysoedd wrth iddynt aros treial, neu yn garcharorion sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog sydd fel arfer yn cael eu cadw am lai na dwy flynedd. Mae'r oedolion ifanc i gyd garcharorion remand.

3.2 Adeiladwyd CEM Abertawe ym 1861 ac mae'r bloc preswyl heb ei newid yn strwythurol er bod moderneiddio ac uwchraddio wedi digwydd. Mae'r gyn Uned Gofal Iechyd wedi cael ei throi'n llety preswyl a disgwylir iddi ddarparu ar gyfer carcharorion yn hydref 2015. Cynlluniwyd i Abertawe ddal 219 o garcharorion, ond oherwydd poblogaeth gynyddol y carchardai, mae gan Abertawe gapasiti gweithredol i dderbyn 455 ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o gelloedd yn cynnwys dau garcharor ond mae yna ychydig o gelloedd sy'n lletya tri ynghyd â nifer fach o gelloedd sengl.

3.3 Mae parch tuag at unigolion yn holl bwysig. Mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn ganolog i lesiant y carchar. Mae pob aelod staff yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gynnal amgylchedd sefydlog sy'n anad dim yn ddiogel. Nod y carchar, drwy'r rhaglenni a'r gweithgareddau amrywiol a chadarnhaol sydd ar gael, yw galluogi carcharorion i ymdrin â'u troseddu a thrwy hynny ei leihau a chynorthwyo gydag ailsefydlu. Cyflawnir hyn drwy bartneriaethau effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

4.1.1 Mae'n braf nodi bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan y Tîm Cydraddoldebau i gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed yn dilyn archwiliad blaenorol.

4.1.2 Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi gwella'n sylweddol.

4.1.3 Mae penodi Swyddog Cyswllt Anabledd yn cael ei weld fel cam cadarnhaol gan fod nifer cynyddol o garcharorion gydag ystod o anabledau wedi'u lleoli yn y carchar.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

4.2.1 Mae'r adran wedi cael blwyddyn gymysg o ran perfformiad. Fe wnaeth arolygiad a gynhaliwyd gan Estyn raddio'r perfformiad cyffredinol yn ddigonol.

4.2.2 Derbyniwyd adborth ardderchog gan aelodau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn dilyn eu hymweliad â'r carchar yn gynharach eleni. Roeddent yn falch iawn o'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud ar y cwrs I-Media. Mae carcharorion yn caffael ystod o sgiliau a fydd yn ddefnyddiol yn y gweithle. Mae nifer o ddogfennau allweddol ar gyfer carcharorion a staff sy'n siarad Cymraeg wedi cael eu cyfieithu a'u cynhyrchu gyda chymorth carcharorion.

4.2.3 Ond mae'n siomedig iawn adrodd nad yw'r Campws Dysgu Rhithwir yn dal i fod yn gwbl weithredol. Nid yw'n ymddangos fod yna reswm da dros y diffyg cynnydd hwn.

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

4.3.1. Unwaith eto mae'n rhaid i'r Bwrdd fynegi ei bryderon am fynediad at optegydd a gwasanaethau deintyddol. Mae carcharorion yn aros am lawer rhy hir am apwyntiadau deintyddol/optegwyr boed y rhain yn rhai arferol neu mewn argyfwng. Mae ymweliadau gan y gweithwyr iechyd proffesiynol hyn yn parhau i ddigwydd yn anaml ac ar hap.

4.3.2 Mae nifer sylweddol o garcharorion yn cyrraedd Carchar Ei Mawrhydi Abertawe gyda phroblemau cyffuriau ac mae datblygu Cyfarwyddebau Grŵp Cleifion gan y fferylllydd wedi cael ei gydnabod yn eang fel arfer da. Mae hyn yn cynnwys galluogi newydd-ddyfodiaid i dderbyn meddyginiaeth ar gyfer dadwenwyno i atal niwed os cânt eu derbyn i'r carchar pan fyddai mynediad at feddyg yn anodd. Mae hyn yn caniatáu i'r carcharorion gael meddyginiaeth ar unwaith ac nid yw'n golygu bod yna oedi cyn iddynt gael triniaeth.

GWEITHGAREDD PWRPASOL

4.4.1 Mae ymdrechion yn parhau i gael eu gwneud i sicrhau bod gweithgarwch cyflogedig a phwrpasol i bawb, ond gyda gweithlu sy'n newid yn gyson mae hyn yn

parhau i fod yn her. Yn anffodus, mae'n golygu bod carcharorion yn aml yn gwneud gwaith sy'n ddiflas nad yw'n rhoi unrhyw gyfle iddynt gaffael sgiliau.

ADSEFYDLU

4.5.1 Mae'r Bwrdd yn falch iawn o adrodd bod PACT Cymru [Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai Cymru] wedi cyflwyno cwrs newydd wedi'i anelu at helpu carcharorion y mae eu troseddau yn gysylltiedig â thrais yn y cartref. Dylai'r cwrs hwn fod wedi ei gyflwyno ymhell cyn hyn.

DALFA MWY DIOGEL

4.6.1 Mae prosesu dogfennau ACCT [Gwaith Tîm Asesu Gofal a'r Ddalfa] yn parhau i achosi pryder, ond cydnabyddir bod mwy o hyfforddiant yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod carcharorion sydd mewn perygl yn cael eu nodi'n gyflym a bod y mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch.

4.6.2 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn bryderus am y diffyg lle addas i wrandawyr gynnal cyfweiliadau cyfrinachol.

ARWAHANU, GWAHANU A GOFAL

4.7.1 Y llynedd, adroddodd y Bwrdd, er ein bod yn cael ein hysbysu'n achlysurol am adolygiadau arwahanu, nad oedd hyn yn wir bob tro. Roeddem yn teimlo bod hwn yn faes y dylid ei wella. Er ein bod yn nodi gwelliant yn y maes hwn, mae llawer i'w wneud o hyd a bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro yn unol â hynny. Rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol yn ein rôl fel Monitoriaid gwir annibynnol y Sefydliad hwn ein bod yn cael ein hysbysu am adolygiadau.

4.7.2 Mae'r Bwrdd bob amser yn cael ei hysbysu o fewn 24 awr o symudiadau i arwahanu carcharorion. Mae aelodau'r Bwrdd yn gallu gweld a siarad â phob carcharor yn ddirwystr.

4.7.3 Mae nifer y dyfarniadau yn parhau i gynyddu gyda'r cynnydd mwyaf mewn troseddau yn ymwneud â chyffuriau. Problem gymharol ddiweddar yw'r defnydd o 'gyffuriau cyfreithlon'. Mae'r rhain ar hyn o bryd yn anodd eu canfod a gallant achosi ymddygiad anodd ei ddarogan.

GWASANAETHAU PRESWYL

4.8.1 Mae'r Bwrdd yn parhau i fynegi pryderon am orlenwi. Mae yna nifer cyfyngedig o gelloedd sengl ac mae'n ymddangos fod gwaith i adnewyddu celloedd a chyfleusterau yn cael ei oedi'n barhaus Mae gan nifer o gelloedd ffenestri wedi torri ac mae diffyg llenni i sicrhau preifatrwydd o amgylch toiledau yn annerbyniol.

4.8.2 Mae'r Tîm Arlwygo wedi cynhyrchu compactau ar gyfer carcharorion sy'n gweithio yn y gegin sy'n eu galluogi i ddilyn eu datblygiad gan ganolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant ac ymddygiad proffesiynol.

4.8.3 Er gwaethaf gostyngiadau yn y gyllideb mae'r adran yn parhau i ystyried syniadau newydd ac ymateb i awgrymiadau a gafwyd o arolygon carcharorion a thrwy

fforwm y carcharorion. Mae'r Tîm Arlwyo yn haeddiannol falch o'r sgôr hylendid bwyd pum seren a gawsant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

ADRAN 5 - YR ADRODDIAD

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

5.1.1 Mae cyfarfodydd Cydraddoldebau yn cael eu cynnal bob wyth wythnos ac mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

5.1.2 Mae ffurflenni DIRFS [Ffurflenni Adroddiadau am Ddigwyddiadau Gwahaniaethu] a Cwynion¹ bellach ar gael ar bob adain o'r carchar a thynnwyd sylw cynrychiolwyr carcharorion at y gweithdrefnau. Nodwyd bod nifer y DIRFS wedi cynyddu'n ddiweddar. Mae posteri yn cael eu cynhyrchu gyda chymorth yr Adran Dysgu a Sgiliau a byddant yn cael eu gosod ar bob adain. Mae Holiaduron Cydraddoldeb yn cael eu cwblhau fel rhan o'r broses sefydlu. Nid yw'r cynrychiolwyr wedi derbyn hyfforddiant ar DIRFS a PEEPS [Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng] eto.

5.1.3 Cymerwyd gofal i ddarparu cyfleusterau a bwyd i garcharorion Moslemaidd yn ystod Ramadan. Mae'r adborth gan garcharorion ynghylch yr arlwyo wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r Rheolwr Arlwyo wedi trefnu prydau bwyd ar thema arbennig gydag amrywiaeth o fwyd Tsieinaidd ac Indiaidd. Cafodd llwyau gweini bwyd a chylllyll a ffyrc eu cadw yn unol â chredoau crefyddol y rhai sy'n bwyta bwyd Halal.

5.1.4 Penodwyd llyfrgellwyr newydd ac anogir carcharorion i ddefnyddio'r llyfrgell, er hyd yma mae presenoldeb wedi bod yn wael yn bennaf oherwydd prinder staff a diffyg cymhelliant. Mae carcharorion anabl yn awr yn cael cymorth gyda chadeiriau olwyn i fynychu'r llyfrgell.

5.1.5 Mae Swyddog Cyswllt Anabledd wedi ei benodi.

5.1.6 Mae carcharorion o bob oedran yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a gwyddbwyll gyda gwobrau yn cael eu cynnig. Cafodd sesiynau Bowlïo eu trefnu.

5.1.7 Mae darparu sianeli teledu a radio yn y celloedd yn parhau i fod yn waith ar y gweill. Y nod yw cadw carcharorion mewn cysylltiad â digwyddiadau o ddydd i ddydd.

5.1.8 Ymwelir â gwladolion tramor a charcharorion eraill sydd angen cymorth gan swyddogion mewnfudo a swyddogion o Asiantaeth Ffiniau'r DU. Ond nodir nad oes swyddog mewnfudo annibynnol yn y sefydliad.

5.1.9 Mae gwladolion tramor a'r rhai na allant siarad Saesneg bellach yn cael eu helpu i gael gafael ar ganllawiau a bwydlenni darluniadol.

5.1.10 Mae dysgu'r Gymraeg wedi cael ei drefnu a'i hyrwyddo. Mae asesiad effaith wedi cael ei gynnal a bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli.

5.1.11 Nid yw'r gwaith cydlynu ar gyfer Ymddiriedolaeth Shannon wedi gwneud cynnydd hyd yma ac mae cynrychiolydd o EYST [Tîm Cefnogi Ieuencid Ethnig] i fod i gael ei benodi cyn bo hir.

5.1.12 I grynhoi, cafodd cynnydd sylweddol ei wneud gan y tîm cydraddoldebau i gydymffurfio ag adroddiad archwiliad y llynedd.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

5.2.1 Mae'r adran yn parhau i fod yn rhan annatod a gwerthfawr o drefn y carchar. Mae wedi cael blwyddyn gymysg o ran perfformiad. Cafwyd arolygiad Estyn ym mis Hydref 2014 a ddaeth pan oedd y rhaglen Meincnodi Cenedlaethol yn ystod chwe mis olaf ei gweithredu. Yn anffodus, roedd yr adran yn siomedig iawn, gyda'r perfformiad cyffredinol yn cael ei farnu yn ddigonol.

5.2.2 Un o'r argymhellion a wnaed gan Estyn oedd yr angen am ddadansoddiad mwy manwl o anghenion dysgwyr. Mae pecyn meddalwedd cyfrifiadurol: 'The Do It Profiler' yn mynd i gael ei osod yn Awst 2015. Bydd hyn yn rhoi gwell syniad i'r staff am anghenion dysgu ac anabledd unigol.

5.2.3 Cafodd yr adran adborth ardderchog gan aelodau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn dilyn eu hymweliad â'r carchar yn gynharach eleni. Roeddent yn falch iawn o'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud ar y cwrs I-Media. Mae'r adnoddau yn ardderchog ac mae'r carcharorion yn cael defnyddio cyfrifiaduron i-mac i gynhyrchu posteri, arwyddion a llyfrynau sy'n cyrraedd safon sy'n dderbyniol gan ddiwydiant. Maent yn caffael ystod o sgiliau a fydd yn ddefnyddiol yn y gweithle. Mae carcharorion wedi helpu i gyfieithu a chynhyrchu nifer o ddogfennau allweddol ar gyfer carcharorion a staff sy'n siarad Cymraeg.

5.2.4 Mae presenoldeb mewn dosbarthiadau yn dda iawn. Mae tua 65 o garcharorion yn mynychu sesiynau dysgu yn yr adran bob dydd. Dau gwrs newydd sy'n boblogaidd iawn yw Gwasanaethau'r Cwsmer ac Iechyd ac Ymddygiad. Mae'r galw am leoedd ar y cyrsiau hyn yn uchel.

5.2.5 Penodwyd dau aelod newydd o staff i redeg y llyfrgell ac maent eisoes wedi cael effaith. Maent wedi dechrau clwb llyfrau wythnosol, gwasanaeth allgymorth i garcharorion sy'n gweithio'n amser llawn ac wedi sicrhau cynnydd yn y deunydd sy'n ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg, a'r deunydd sy'n ymdrin â diwylliant a threftadaeth. Maent hefyd wedi bod yn gweithio ar y cyd â PACT Cymru i ddarparu cefnogaeth gydag adnoddau darllen a llythrennedd i blant.

5.2.6 Mae Gyrfa Cymru wedi ymestyn eu contract a bydd gweithiwr cyngor ac arweiniad yn cael ei leoli yn y carchar yn awr am ddau ddiwrnod yr wythnos.

5.2.7 Mae Cynllun Darllen Ymddiriedolaeth Shannon yn parhau i ddatblygu'n dda ac mae'r deunydd newydd "Turning Pages" yn ardderchog ar gyfer mentoriaid a rhai sy'n cael eu mentora. Mae swyddog wedi ei enwebu i arwain gyda hyn.

5.2.8 Yn anffodus mae'r Campws Rhithwir a sefydlwyd ym mis Mawrth 2014 wedi cael ei uwchraddio ond nid yw'n gwbl weithredol eto. Nid yw'n ymddangos fod yna esboniad am y diffyg cynnydd gyda'r adnodd gwerthfawr hwn.

5.2.9 Mae cyrsiau dysgu o bell a'r Brifysgol Agored yn boblogaidd iawn, ond oherwydd proffil y carchar, mae cyfleoedd ar gyfer y math hwn o ddysgu yn gyfyngedig fel arfer. Mae cyrsiau sydd ar gael yn cynnwys Cwnsela, Astudiaethau Busnes a Theori Adeiladu. Roedd y staff yn falch iawn o glywed bod cyn garcharor wedi cael lle mewn prifysgol a bydd yn dechrau ar ei astudiaethau yn yr hydref.

5.2.11 Yn anffodus, cafwyd anawsterau staffio ac mae hyn wedi effeithio ar ddarparu rhai cyrsiau. Mae'r adran yn brin o staff ar hyn o bryd gan fod dwy o'r athrawesau ar absenoldeb mamolaeth. Mae un swydd addysgu yn cael ei llenwi gyda staff asiantaeth.

5.2.12 Mae yna aseswr NVQ [Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol] amser llawn wedi'i leoli yn y carchar a gyflogir gan y cwmni N-ergy. Mae hyn wedi cynyddu nifer y cymwysterau a gynigir yn y gweithdai ac ar draws y sefydliad.

5.2.13 Cynhelir cwrs plymio sylfaenol newydd yn un o'r gweithdai ac mae'n boblogaidd iawn.

5.2.14 Mae'r adran yn parhau i gyflawni'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

GOFAL IECHYD

5.3.1 Mae'r Adran Gofal Iechyd yn anelu at ddarparu gofal iechyd i ddiwallu anghenion deintyddol poblogaeth y carchar dan nawdd llywodraethu clinigol.

5.3.2 Maent yn cynnal nifer o glinigau, gwasanaethau gofal iechyd dan arweiniad nyrsys a meddygon, dadwenwyno o ganlyniad i alcohol a chyffuriau, darparu meddyginiaeth ac ymateb meddygol brys. Maent yn goruchwyllo'r carcharorion hynny ar ACCT's, yn edrych ar y dogfennau ACCT ac yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau dalfa mwy diogel.

5.3.3 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu rhai newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu o fewn y carchar gan eu bod wedi symud yn llwyddiannus ac wedi setlo i mewn i ardal newydd yn y carchar. Mae eu hen adain yn cael ei haddasu ar hyn o bryd fel bloc llety i fwy o garcharorion.

5.3.4 Mae'r Bwrdd yn cael nifer sylweddol o geisiadau mewn perthynas â mynediad at ofal iechyd a thriniaeth ddeintyddol. Mae mynediad i driniaeth ddeintyddol a gofal iechyd yn broblem.

5.3.5 Mae lefelau staffio yn yr Adran Gofal Iechyd yn dal i beri pryder. Maent wedi hysbysebu'n ddiweddar ac wedi penodi dau R.M.N. (Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig) yn llwyddiannus, ond ni fyddant yn eu swydd am nifer o wythnosau o ganlyniad i brosesau fetio a recriwtio yn y carchar. Mae yna gynlluniau ar hyn o bryd i hysbysebu am ddau aelod staff arall.

5.3.6 Mae'r adran ar fin "mynd yn fyw" gyda system rhagnodi a dosbarthu electronig newydd. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ac yn disgwyl problemau "cychwynnol".

5.3.7 Mae'r fferylllydd yn yr Adran Gofal Iechyd a enillodd Wobr Ymddiriedolaeth Butler am ei gwaith wrth ddatblygu PGDs (Cyfarwyddebau'r Grwp Cleifion) yn haeddu clod. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i newydd-ddyfodiaid gael meddyginiaeth ar gyfer dadwenwyno i atal niwed wrth fynd i mewn i'r carchar ar adegau pan fyddai mynediad at feddyg fod yn anodd. Mae hyn yn caniatáu i'r carcharorion gael meddyginiaeth ar unwaith ac mae'n golygu nad oes unrhyw oedi cyn iddynt gael triniaeth.

5.3.8 Hoffai'r Bwrdd gofnodi bod y Pennaeth Gofal Iechyd bob amser yn hynod o barod i helpu wrth geisio datrys materion yn ymwneud â cheisiadau. Ond mae'r Bwrdd yn siomedig o orfod nodi bod rhai uwch aelodau staff yn anghwrtais ac yn ddiystyriol pan gysylltir â hwy.

5.3.9 Mae staff gofal iechyd yn treulio amser sylweddol yn darparu cyffuriau. Mae mwyafrif helaeth poblogaeth y carchar ar ryw fath o feddyginiaeth. Mae hyn wrth gwrs yn achosi problemau sy'n arwain at gwynion a cheisiadau yn cael eu hanfon at y Bwrdd.

5.3.10 Er y bu problemau yn ymwneud â meddyginiaeth yn cael ei chuddio yng nghledr y llaw neu ei chadw o'r golwg mae staff y carchar trwy'r cyfarfodydd gofal iechyd a diogelwch bellach yn fwy gwyliadwrus ynghylch yr arfer hwn.

5.3.11 Ar ôl mynd drwy rai newidiadau sylweddol, mae mwy yn mynd i ddigwydd o ran gofal iechyd eleni. Gyda phoblogaeth gynyddol o garcharorion mae'r Bwrdd yn rhagweld cynnydd pellach yn nifer y ceisiadau sy'n ymwneud â Gofal Iechyd.

GWEITHGAREDD PWRPASOL

5.4.1 I gyd-fynd â'r cynlluniau dysgu a sgiliau, mae troseddwy'r yn cael y cyfle i wneud gwaith pwrpasol mewn amrywiol feysydd.

Ar hyn o bryd mae 22 o droseddwy'r yn gweithio yn y gegin. Ar ôl cwrs hylendid sylfaenol sy'n para pythefnos, gallant nid yn unig weithio, ond gallant hefyd ennill NVQ Lefel 1 a 2.

Mae gan gegin CEM Abertawe dystysgrif gyda sgôr hylendid 5 seren y mae'r carchar yn falch iawn ohoni.

5.4.2 Mae 12 o droseddwy'r yn cael eu cyflogi yn y gyfnewidfa ddillad. Mewn ardaloedd eraill ar hyn o bryd ceir: -

Siop 1 Beiciau 15 i 18 o droseddwy'r

Siop 2 Stripio paletau pren 15

Siop 3 Gwnïo 30 o droseddwy'r

Siop 4 Plymio 12 o droseddwy'r

Golchdy CES 15 o droseddwy'r

Ailgylchu 15 o droseddwy'r

5.4.3 Mae CGC (NVQ) Perfformio yn cael eu cyflwyno o fewn Siopau 1, 3, 4 a CGC (NVQ) CES [Storfeydd Cyfnewid Dillad] gyda Lletygarwch yn cael eu cyflwyno o

fewn CES ac Ailgylchu. Yn ystod Gorffennaf 2015 gobeithir cael mwy o gyllid NVQ ar gyfer meysydd eraill sy'n cael eu hystyried.

5.4.4 Mae dau weithgaredd wedi dod i ben, yn gyntaf y gwaith Ailgylchu Matresi, oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch, ac yn ail y gwaith Ailgylchu Casetiau oherwydd bod y cleient wedi dirwyn y contract i ben.

5.4.5 Cyfleoedd posibl Newydd: -

1. Siop 2 Gwnio ar gyfer Cyflenwadau Diwydiannol, gyda NVQs perfformio.
2. Ailgylchu cyfrifiaduron (mae diffyg lle yn broblem fawr i'w goresgyn ar hyn o bryd)

Collwyd cyfle i wneud Croesau Angladdol a Meinciau i gyflenwr lleol. Roedd hyn oherwydd nad oedd digon o le storio yn y carchar.

5.4.6 Gwneir ymdrechion parhaus gan Garchar EM Abertawe i sicrhau gweithgarwch pwrpasol, ond mae'r carchar yn gweithredu o dan dri o brif anfanteision: -

1. Porth wedi'i gyfyngu i lorïau 7.5 tonnell (sy'n effeithio ar gost cludiant)
2. Lle storio cyfyngedig iawn ar gyfer storio eitemau swmpus a / neu eitemau mawr.
3. Ei leoliad pell i'r Gorllewin o Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

5.4.7 Fel Bwrdd, rydym yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan y carchar i sicrhau bod carcharorion yn cael eu cyflogi'n bwrpasol.

ADSEFYDLU

5.5.1 Nod y tîm ailsefydlu yw sicrhau bod yr holl garcharorion yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer eu rhyddhau ac wrth wneud hynny lleihau ymddygiad troseddol. Maent yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau cyflogaeth i garcharorion ar ôl eu rhyddhau yn ogystal â darparu cymorth ymarferol i'r rhai sy'n gofyn amdano.

5.5.2 Mae targedau cyfredol ar gyfer sicrhau cyflogaeth ar ôl eu rhyddhau yn cael eu cyflawni ac mae'r tîm yn ymgysylltu â nifer o grwpiau sy'n darparu tai cymdeithasol. Mae gwybodaeth am sut i gael mynediad at ystod o fudd-daliadau ar gael hefyd.

5.5.3 Mae PACT Cymru wedi cyflwyno nifer o gyrsiau newydd gan gynnwys un wedi'i anelu at helpu carcharorion y mae eu troseddau yn gysylltiedig â thrais yn y cartref. Mae yna hefyd gwrs yn ymwneud â grwpiau babanod sy'n anelu at roi sgiliau magu plant ymarferol i dadau, a chwrs o'r enw Amser i Deuluoedd. Mae menter newydd o'r enw "Mae Pob Ymweliad yn Cyfri" wedi dechrau yn ddiweddar a'i nod yw sicrhau bod ymweliadau yn brofiadau cadarnhaol i'r carcharor a'r ymwelydd. Bydd swyddogion yn cael eu hyfforddi i gynnig cyngor a chymorth i'r rhai hynny sydd am ymgysylltu â nhw.

5.5.4 Dechreuodd y CRC [Cwmni Adsefydlu Cymunedol], Working Links, weithio yn y carchar yn gynnar ym mis Mai 2015, gydag Ymddiriedolaeth St Giles i fod i ddechrau gweithio ym mis Gorffennaf 2015. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd y fenter hon yn ei ddyddiau cynnar, ac nid yw'r Bwrdd wedi dod yn ymwybodol o unrhyw broblemau yn codi o ganlyniad i'r ffordd newydd hon o ddarparu gwasanaethau adsefydlu.

DALFA MWY DIOGEL

5.6.1 Cynhelir Cyfarfodydd Dalfa Mwy Diogel bob dau fis ac yn gyffredinol mae nifer dda yn eu mynychu. Mae adrannau amrywiol sy'n gysylltiedig â Dalfa Mwy Diogel yn mynychu, fel y mae cynrychiolwyr y Bwrdd Monitro Annibynnol, caplan y carchar a'r Samariaid. Fel arfer, mae dau neu fwy o Wrandawyr yn dod gyda chynrychiolydd y Samariaid, gyda'r Gwrandawyr yn rhoi mewnbwn; ar hyn o bryd mae 10 o wrandawyr yn gweithredu.

5.6.2 Ni chofnodwyd unrhyw Farwolaethau yn y Ddalfa eleni.

5.6.3 Nifer y dogfennau ACCT a broseswyd oedd 299 sef cynnydd o 61 ers ffigur y llynedd o 238.

5.6.4 Mae prosesu dogfennau ACCT yn dal i achosi pryder. Mae mwy o hyfforddiant yn cael ei roi ar waith i fireinio'r broses ymhellach a sicrhau bod carcharorion mewn risg yn cael eu canfod yn gyflym a bod y camau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau eu diogelwch.

5.6.5 Mae digwyddiadau eraill o bwys yn cynnwys: -

86 o achosion o hunan-niweidio.

2 achos o fwlio wedi'u cofnodi.

31 o atgyfeiriadau iechyd meddwl

5.6.6 Mae problemau eraill yn cynnwys: -

Profedigaeth, y tro cyntaf yn y ddalfa, problemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau / alcohol, dadwenwyno a phroblemau yn y cartref.

ARWAHANU, GWAHANU A GOFAL

5.7.1 Mae'r uned Gofal ac Arwahanu yn rhan o'r sefydliad yr ymwelir â hi fwyaf ac sy'n cael ei monitro fwyaf gan aelodau'r Bwrdd. Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn ymweld â'r ardal hon o'r Carchar bob tro y maent yn mynychu CEM Abertawe.

5.7.2 Mewn cyferbyniad i'r llynedd, roedd yna deimlad nad oedd yr ardal yn cael ei staffio cystal ag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl. Y Bwrdd a ddaeth i'r casgliad hwn a chlywyd yr un sylw hefyd wrth siarad gyda staff o amgylch y sefydliad. Wedi dweud hynny, roedd cnewyllyn bychan o staff rheolaidd ar yr uned ac roedd hyn ynddo'i hun yn dod â rhyw fath o sefydlogrwydd ac unffurfiaeth i'r uned. Mae'r staff yn brofiadol iawn ac yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael mynediad at garcharorion sydd wedi'u harwahanu yn ôl y galw. Mae'r gwaith papur a chofnodion y carcharorion ar gael yn rhwydd i aelodau'r Bwrdd ar gais.

5.7.3 Un peth yr hoffem dynnu sylw'r Gweinidog ato yw y dylid pwysleisio wrth y Sefydliad, er mwyn osgoi pob amheuaeth, fod gennym ni fel Bwrdd hawl i fynediad dilyffethair at bob rhan o'r Carchar. Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, mae rhai swyddogion yn sôn yn barhaus y dylem fod yn ffonio eu huned cyn ymweld. Rydym yn teimlo drwy sôn am hyn yn ein hadroddiad blynyddol y gallai'r carchar wneud y mater hwn yn glir unwaith ac am byth.

5.7.4 Y llynedd, adroddodd y Bwrdd, er ein bod yn cael gwybod yn achlysurol am adolygiadau, nad oedd hyn yn wir bob tro. Teimlwn fod hwn yn faes sy'n dal angen llawer o welliant. Hysbysir yr aelodau yn ddieithriad pan fydd carcharorion yn cael eu hail-leoli i'r rhan hon o'r carchar ond nid ydym yn cael gwybod am adolygiadau arwahanu. Er ein bod yn derbyn mai ychydig iawn o adolygiadau arwahanu a gynhelir rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol yn ein rôl fel Monitoriaid gwirioneddol annibynnol o'r sefydliad hwn ein bod yn cael gwybod ac yn cael cyfle i fod yn bresennol.

5.7.5 Mae dyfarniadau yn cael eu clywed hefyd yn y rhan hon o'r sefydliad ac fe nodir bod cynnydd arall yn anffodus wedi bod yn nifer y dyfarniadau, y defnydd o rym a'r defnydd o'r celloedd arwahanu. Yn rhannol, gallai hyn fod oherwydd bod gwell cudd-wybodaeth yn cael ei defnyddio o fewn y sefydliad sy'n arwain at ganfod mwy o droseddau.

DYFARNIADAU

5.8.1 Mae pob aelod o'r Bwrdd yn manteisio ar y cyfle i eistedd i wrando ac arsylwi Dyfarniadau'r Llywodraethwyr yn ystod eu hymweliadau rota pryd bynnag y bo modd. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn gwirio bod y gwrandawiadau yn cael eu cynnal mewn modd teg a chryno gyda'r troseddwr yn deall pob agwedd ar yr achos. Mae'r Bwrdd yn sicrhau hefyd bod gwrandawiadau yn cael eu cynnal gan bob gradd o Lywodraethwr. Adlewyrchir hyn yn y ffaith fod 10 llywodraethwr gwahanol wedi llywyddu dros ddyfarniadau yn ystod y cyfnod adrodd.

5.8.2 Cafodd cyfanswm o 936 o gyhuddiadau eu dwyn yn erbyn carcharorion yn ystod y flwyddyn. Mewn 239 (25%) o'r holl achosion ystyrir nad oedd y cyhuddiadau wedi eu sefydlu ar ôl cael adolygiad pellach ac ar ôl hynny cawsant eu gwrthod. Mewn 87 (9%) o achosion roedd y carcharor wedi cael ei ryddhau, ni ddychwelodd o'r llys, neu cafodd ei drosglwyddo i garchar arall. Mewn 251 (27%) o'r achosion mwy difrifol cafodd y dyfarniad ei gyfeirio at Ddyfarnwr Annibynnol y tu allan / Barnwr Rhanbarth, ac ystyriwyd bod 13 (1%) o'r troseddau yn ddigon difrifol i gael eu cyfeirio'r tu allan i'r Heddlu.

5.8.3 Cafodd cyfanswm o tua 75% o'r dyfarniadau a gafodd eu clywed eu trin gan Lywodraethwyr y Carchar a 25% gan farnwr allanol gyda'r dyfarniadau yn cynnwys amrywiaeth o gosbau o golli breintiau carchar ac enillion am achosion o gamymddwyn llai, hyd at golli cysylltiad a diwrnodau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y ddedfryd am gamymddwyn mwy difrifol.

5.8.4 Mae archwiliad manwl o'r cofnodion dyfarnu yn dangos bod y troseddau wedi'u dyrannu fel a ganlyn.

- Ymosodiad 15%
- Gwrthod Cydymffurfio 16%
- Yn Ymwneud â Chyffuriau 23%
- Difrod i Eiddo 6%

- Torri PSO 4400 / Aflonyddu 20%
- Meddiant heb awdurdod 4%
- Yn Ymwneud â Ffôn Symudol / Pin 3%
- Yn Ymwneud ag Alcohol 1%
- Mewn Lle heb Awdurdod 1%
- Amrywiol 11%

Mae dadansoddiad o'r troseddau yn ôl ethnigrwydd yn dangos ei fod yn gyffredinol yn gymesur i ddsbarthiad ethnig poblogaeth y carchar.

GWASANAETHAU PRESWYL

5.9.1 Mae Abertawe yn dal i fod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn yn y wlad. Am nifer o flynyddoedd mae'r Bwrdd wedi mynegi siom am y sefyllfa hon, ac mae'n destun gofid bod yn rhaid i ni adrodd bod hyn yn dal yn wir. Roedd y carchar wedi ei gynllunio i ddal 219 o garcharorion ac ar hyn o bryd mae'n dal hyd at 455.

5.9.2 Mae gan y rhan fwyaf o gelloedd ddau yn aros ynddynt ac mae'r ffaith nad oes llenni preifatrwydd yn sgrinio'r toiledau wedi cael ei grybwyll lawer gwaith. Mae angen cynnal preifatrwydd ac urddas sylfaenol bob amser.

5.9.3 Mae cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau'r cawodydd wedi cael eu gohirio unwaith eto. Gyda chymaint o garcharorion yn mynychu gwaith mae mynediad at y cawodydd yn gyfyngedig iawn.

5.9.4 Mae tîm y Gegin wedi cynhyrchu a chyflwyno compactau i weithwyr y Gegin, sy'n darparu taith i'r carcharorion trwy eu cyflogaeth o ran hyfforddiant a datblygu personél. Mae pob carcharor yn cael hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chodi a chario, diogelwch bwyd, ac iechyd a diogelwch.

5.9.5 Mae aelod o dîm y gegin yn mynychu cyfarfodydd Fforwm y Carcharorion yn rheolaidd ac mae'r adran yn dangos parodrwydd i dderbyn a datblygu syniadau sy'n cael eu cyflwyno, hyd yn oed pan fydd cyllidebau'n gyfyngedig ac yn lleihau. Mae hyn wedi arwain at fwydlenni arbennig i'r carcharorion ar achlysuron dathlu fel Dydd Gŵyl Dewi. Fel rhan o Bolisi Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol y carchar, mae'r tîm hefyd wedi trefnu bwydlenni ar themâu Indiaidd, Eidalaidd a Tsieineaidd trwy gydol y flwyddyn ac wrth gwrs mae opsiynau Halal ar gael bob amser. Rhoddir sylw i Ramadan gyda threfniadau penodol ar gyfer gwledd Eid ac mae Mis Hanes Pobl Dduon yn cael ei ddathlu hefyd.

5.9.6 O ganlyniad i'w hymdrechion, mae nifer y cwynion yn hynod o isel. Mae'n ymddangos bod y costau yn cael eu rheoli'n dda, er gwaethaf gostyngiadau yn y gyllideb. Dylid nodi hefyd bod y carchar, o dan y rheolaeth bresennol wedi derbyn y sgôr hylendid bwyd uchaf (5) gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Adran Iechyd yr Amgylchedd Leol am dair blynedd o'r bron sy'n record.

5.9.7 Mae rheolaethau rheoli a hylendid y gegin yn cael eu hamlygu a'u hadrodd yn yr archwiliadau arlwyyo rheolaidd a gyflwynir gan y Tîm Arlwyyo Ardal. Mae'r tîm yn cynnal arolygon bwyd bedair gwaith y flwyddyn ac mae'r wybodaeth hon, ynghyd ag adborth o ymgynghori â charcharorion wedi bod yn sylfaen ar gyfer datblygu'r fwydlen newydd a gyflwynir ym mis Gorffennaf 2015.

5.9.8 Cafodd ymdrechion tîm y gegin eu gwobrwyo pan ddyfarnwyd gwobr Tîm y Flwyddyn CEM Abertawe i staff y gegin gan y Llywodraethwr ym mis Rhagfyr 2014.

5.9.9 Mae wedi bod yn gyfnod o ansicrwydd i'r Adran Gwaith eleni gyda chwmnïau preifat yn tendro am y contract. Enillwyd y contract gan Amey a fydd yn dechrau ar 1 Mehefin, 2015.

5.9.10 Nid yw'r gwaith o ailosod y llawr yn y gegin wedi ei ddechrau eto. Nid yw'r gwaith o adnewyddu ac uwchraddio'r cawodydd wedi ei ddechrau eto ychwaith. Mae'r gwaith o uwchraddio'r system teledu cylch cyfyng yn y Ganolfan Ymwelwyr ar y gweill.

5.9.11 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu newidiadau staff yn yr adran Iechyd a Diogelwch ac mae Swyddog Tân newydd wedi dechrau yn ei swydd. Mae 86.52% o'r staff yn CEM Abertawe wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Tân. Mae 76% o'r staff wedi derbyn hyfforddiant gyda'r defnydd o gyflau ('hoods') tân. Mae'r holl larymau tân yn cael eu profi bob wythnos gan y Swyddog Tân. O Fehefin 1af 2015, bydd profion ar y larymau yn cael eu gwneud gan Amey. 5.9.15 Dosbarthwyd arwyddion 'Office Clear' fel y bo'n briodol trwy'r carchar ar ôl nodi bod drysau tân yn cael eu lletemu ar agor.

5.9.12 Mae pedwar ar bymtheg o aelodau staff a phedwar deg pedwar carcharor wedi adrodd am ddamweiniau yn ystod y cyfnod adrodd gan wneud cyfanswm o chwe deg tri. Gwnaed pedwar deg o alwadau larwm yn ystod y cyfnod adrodd.

5.9.13 Er bod camau amlwg yn cael eu cymryd i sicrhau bod Iechyd a Diogelwch yn fater hollbwysig, a bod yr hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu, mae'r Bwrdd yn siomedig bod y cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch misol yn cael eu canslo yn aml ar fyr rybudd. Dim ond un cyfarfod Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd eleni.

ADRAN 6 ARDALOEDD ERAILL O'R CARCHAR

DERBYN A SEFYDLU

6.1.1 Mae carcharorion ar ôl cyrraedd yn cael eu gweld gan aelod o'r Tîm Gofal Iechyd cyn gadael yr Ardal Dderbyn. Mae hyn yn sicrhau bod carcharorion gyda phroblemau meddygol a / neu gyffuriau yn cael eu nodi a bod cymorth priodol yn cael ei roi. Mae cyfleusterau i gael cawod ar gael.

6.1.2 Mae ystod eang o bosteri ar gael yn yr ardal Dderbyn, mewn amrywiaeth o ieithoedd i helpu carcharorion i ddeall y system. Mae cyfleusterau cyfieithu dros y ffôn ar gael hefyd. Yn ogystal, mae Gwrandawyr ar gael yn yr Ardal Dderbyn o 16.30 ac yn ystod y min nos, sy'n "cymysgu" yn anffurfiol gyda newydd-ddyfodiaid i drafod unrhyw bryderon. Rhaid i garcharorion sy'n cyrraedd cyn yr amser hwn ofyn am wasanaethau Gwrandawr a byddai hyn yn cael ei ganiatáu cyn belled ag y bo'n ymarferol.

6.1.3 Mae'n dda bod y pryderon a fynegwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd ynghylch dyraniadau staff wedi cael eu datrys.

6.1.4 Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd wedi mynegi pryderon ynghylch carcharorion yn cyrraedd yn hwyr o Lysoedd pell, oherwydd anallu sefydliadau agosach i'w derbyn. Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod y sefyllfa wedi gwella.

6.1.5 Ar ôl gadael yr Ardal Dderbyn, mae carcharorion yn cael eu lleoli i ddechrau ar yr Uned Noson Gyntaf, sydd eleni wedi cael ei hail-leoli i Adain B. Er bod cyfleusterau yn yr Uned wedi gwella'n sylweddol, yn anffodus, mae diffyg Ystafelloedd Cyfweld pwrpasol yn parhau i fod yn broblem. O ganlyniad, ychydig o breifatrwydd sydd i staff a charcharorion sgwrsio o hyd. Mae'n ymddangos fod gan y staff berthynas waith ardderchog gyda charcharorion a'u bod yn treulio amser gyda newydd-ddyfodiaid nes eu bod wedi setlo i fywyd y carchar.

6.1.6 Mae carcharorion yn derbyn pecyn gwybodaeth - "Yr Ardal Dderbyn a'r Uned Noson Gyntaf" sy'n egluro i garcharorion nifer o bolisiâu a chompectau y mae'n rhaid iddynt gadw atynt yn ystod eu harhosiad. Eleni cyflwynwyd Llyfrynnau "Hawdd eu Darllen" i garcharorion gydag anawsterau dysgu

6.1.7 Mae gan yr Adain Lleihau Cyffuriau enw da haeddiannol am y gwaith y mae'n ei wneud ac mae'n cael ei hystyried yn esiampl ar gyfer carchardai eraill. Mae'r carchar yn y broses o agor Adain G a fydd yn gweithredu fel Uned 'Galluogi' ac a fydd yn gwella'r gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael.

6.1.8 Mynegwyd pryderon mewn perthynas â chyflwr y llwybr mynediad i garcharorion o'r Ardal Dderbyn i'r gwahanol adenydd ac mae'n dda bod cynllun yn cael ei ystyried i wella hyn.

CAPLANIAETH

6.2.1 Mae'r Caplan yn arwain tîm ymroddedig a brwdfrydig a gwneir pob ymdrech i sicrhau y darperir ar gyfer pob ffydd. Mae caplan Moslemaidd a rennir â CEM Caerdydd yn ymweld un diwrnod yr wythnos ac mae Imam seiliedig yn y gymuned yn mynychu'r carchar yn rheolaidd ar gyfer gweddïau ar ddydd Gwener. Mae gwyliau crefyddol yn cael eu dathlu a gwahoddir aelodau'r gymuned i fod yn bresennol.

6.2.3 Mae sefydliadau fel Cyfeillach y Carchar, Hope Farm a Zac`s Place yn chwarae rhan weithredol yn addoliad y Sul yn rheolaidd. Mae'r ymweliadau hyn yn tynnu sylw at amrywiaeth o gynlluniau sy'n cynnig cymorth penodol i droseddwyr sy'n dymuno ymgysylltu â hwy ar ôl eu rhyddhau.

6.2.4 Mae'r Tîm Caplaniaeth yn parhau i hwyluso'r cwrs ymwybyddiaeth dioddefwyr, "Sycamore Tree" ynghyd â "Christianity Explored" ac mae'r rhain yn parhau i gael eu mynychu gan niferoedd uchel iawn.

ADRAN 7 GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Cafodd ceisiadau eu dadansoddi yn ôl categori

Categori	08/09	09/10	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15
Llety	1	0	1	2	2	1	3
Dyfarniadau	0	1	0	0	0	4	6
Cyfleusterau ffreutur / siopa Catalog / Argos	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	0
Addysg / Cyflogaeth / Hyfforddiant	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	7
Cydraddoldeb / Amrywiaeth	0	0	0	1	0	0	2
Cyllid / Cyflog	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	2
Bwyd	0	1	1	0	3	6	4
Post	1	1	1	0	1	0	6
Meddygol	6	13	4	8	8	11	43
Eiddo / trosglwyddo	0	4	0	4	0	4	17
Eiddo / sefydliad presennol	0	0	0	0	1	3	10
Yn gysylltiedig â dedfryd gan gynnwys HDC, parôl, ROTL, ail-gategoreiddio, dyddiad rhyddhau*	5	4	0	1	0	3	19
Bwlio, Pryderon staff/carcharorion	3	2	0	4	1	3	5
Trosglwyddo	3	2	2	1	2	2	7
Ymweliadau	5	4	4	6	3	1	9
Amrywiol	17	11	9	6	10	14	29
CYFANSWM	41	43	22	33	31	52	169

- HDC - Cyrffyw Cadw yn y Cartref
- ROTL - Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro
- Recat - Ailgategoreiddio

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed 19 o Gwynion Mynediad Cyfrinachol i'r Bwrdd ac roedd un cais i gwrdd â'r bwrdd llawn.

YSTADEGAU'R BWRDD	
Nifer a argymhellir o Aelodau'r Bwrdd	12
Nifer aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	12
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	11
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod adrodd	0
Nifer yr aelodau a wnaeth adael gyda'r cyfnod adrodd	1
Cyfanswm nifer cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad	267
Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd [gan gynnwys Cwynion Mynediad Cyfrinachol]	188